

# Cip ar Gynnyrch Llaeth



Mae gwariant ar gynnyrch llaeth yn parhau i ostwng wrth i bris yr uned ostwng – ond mae tystiolaeth fod defnyddwyr yn mynd am gynnyrch drytach ym maes byrbrydau, organig a hufan ia premiwm yn help i roi gwerth yn ôl yn y categori.

Mae'r sector llaeth wedi gweld gwerth yn cael ei erydu o'r categori; gyda chyfanswm gwariant ar llaeth, wyau, caws a iogwrt oll yn is. Drwyddi draw, roedd gwariant Cymru ar gynnyrch llaeth 4.4% yn is na'r flwyddyn flaenorol ar at £585m, a chyfaint gwerthiant 3.2% yn is. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae cyfartaledd pris llaeth 7% yn is, wyau a menyn 14% yn is, a chaws 8% yn is.

Mae treiddiad y categori'n parhau'n uchel, gyda 99% o ddefnyddwyr Cymru'n prynu llaeth yn y flwyddyn ddiwethaf, a 98.7% yn prynu caws. Yn gyffredinol, mae defnyddwyr hefyd yn prynu cynnyrch llaeth yn amlach – ond mae'r cyfaint ym mhob ymweliad yn lleihau. Mae newidiadau yn arferion y defnyddwyr yn eu gweld yn prynu neges lai i gyd-fynd â'r brif neges wythnosol.

Mae newid syfrdanol wedi bod yn y farchnad fyrbrydau dros y bum mlynedd ddiwethaf. Tra bo defnyddwyr yn parhau'n gyson o ran

nifer y prydau maent yn eu bwyta bob dydd, mae'r cyfleoedd i gael byrbryd yn llawer mwy amrywiol. Gan fod cynnyrch llaeth yn cael ei ystyried yn iach, mae mewn safle cryf i fanteisio ar y tuedd ymhlith defnyddwyr, gyda byrbrydau caws yn gweld twf o 11% ym Mhrydain, sydd i'w weld yn llwyddiant cynnyrch fel y Laughing Cow Mini Cravings. Llwyddiant arall yw'r cynnydd o 10% mewn snacio ar iogwrt, gyda merched 45-54 oed yn cyfrif am 9.4% o'r achlysuron hynny. Mae 60% yn cael eu gyrru gan resymau iechyd, gyda ffactorau fel braster, halen a siwgr isel yn cael eu crybwyll, a 14% yn credu fod iogwrt yn fwy naturiol, ac wedi'i brosesu lai na chynnyrch arall.

Mae annog cwsmeriaid i fynd am gynnyrch gwell, fel llaeth organig yn ychwanegu gwerth at y categori. Ond er bod 20% o ddefnyddwyr Prydain yn prynu llaeth organig, mae amllder ei brynu'n is na llaeth arferol. Mae'r sector yn werth

3.7% o werth llaeth, sy'n cyfateb i £114m. Mae brand yr adwerthwr yn dominyddu'r sector, gan gyfrif am 83% o'r gwerthiant, gyda Waitrose a Tesco yn gweld twf mewn cyfaint yn yr adran hon. Mae defnyddwyr sy'n prynu llaeth organig wedi ychwanegu dros £2m at werth y sector trwy symud o brynu llaeth rhatach.

Roedd gwerthiant hufen ia 6.3% yn uwch yng Nghymru yn y flwyddyn hyd at Fedi 2016, ac yn werth £54m, ond mae'r categori wedi'i hyrwyddo'n helaeth. Efallai fod siopwyr yn defnyddio'r cynigion i stocio'u rhewgelloedd. Mae defnyddwyr hefyd yn mynd am gynnyrch gwell, gyda'r brandiau premiwm yn perfformio'n dda ar draul tybiau arferol o fanila. Tra bo hyn yn ychwanegu gwerth at y categori, ma pryder fod defnyddwyr yn peidio â bwyta hufen ia'n rheolaidd, ac y gallai maint y categori leihau yn y dyfodol.

Mae symudiad clir wedi bod oddi wrth fargarin, gyda gwariant yn lleihau ar

lefel digidau dwbl dros y ddwy flynedd ddiwethaf, a 3 miliwn uned yn llai yn cael eu prynu yn 2016 o'i gymharu â 2014. Mae'r categori bellach yn werth £33.7m. I'r gwrthwyneb, roedd cyfaint y menyn a brynwyd yng Nghymru 2 filiwn uned yn uwch yn 2016 o'i gymharu â 2014, ac yn werth £43.9m, gyda mwy o ddefnyddwyr yn prynu menyn yn amlach.